# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**2016 dccc 2**

## RHAN 4

GWEITHWYR GOFAL CYMDEITHASOL

*"Wedi ei gymhwyso'n briodol"*

### 84 "Wedi ei gymhwyso'n briodol"

At ddibenion adran 83 mae person wedi ei gymhwyso'n briodol—

(a) os yw'r ymgeisydd, yn achos cais i gofrestru fel gweithiwr cymdeithasol—

(i) wedi cwblhau'n llwyddiannus gwrs a gymeradwywyd gan GCC o dan adran 114 ar gyfer personau sy'n dymuno dod yn weithwyr cymdeithasol,

(ii) yn bodloni gofynion adran 85 (cymwysterau a geir y tu allan i Gymru), neu

(iii) yn bodloni unrhyw ofynion o ran hyfforddiant y caiff GCC eu gosod drwy reolau;

(b) os yw'r ymgeisydd, yn achos ymgeisydd sy'n gwneud cais i gofrestru fel gweithiwr gofal cymdeithasol o unrhyw ddisgrifiad arall—

(i) wedi cwblhau'n llwyddiannus gwrs a gymeradwywyd gan GCC o dan adran 114 ar gyfer personau sy'n dymuno dod yn weithiwr gofal cymdeithasol o'r disgrifiad hwnnw, neu

(ii) sy'n bodloni unrhyw ofynion o ran hyfforddiant y caiff GCC drwy reolau eu gosod mewn perthynas â gweithwyr gofal cymdeithasol o'r disgrifiad hwnnw.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

## 85 Cymwysterau a geir y tu allan i Gymru

(1) Mae ymgeisydd ar gyfer cofrestru yn y rhan gweithwyr cymdeithasol o'r gofrestr yn bodloni gofynion yr adran hon os yw'r ymgeisydd yn berson esempt sydd, yn rhinwedd Rhan 3 o'r Rheoliadau Systemau Cyffredinol, wedi ei ganiatáu i ddilyn proffesiwn gweithiwr cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig (ar ôl, yn benodol, gwblhau unrhyw gyfnod addasu yn llwyddiannus, neu basio unrhyw brawf tueddfryd, y caiff fod yn ofynnol i'r ymgeisydd ei gwblhau yn unol â'r Rhan honno o'r Rheoliadau hynny).

(2) Mae ymgeisydd ar gyfer cofrestru yn y rhan gweithwyr cymdeithasol o'r gofrestr yn bodloni gofynion yr adran hon—

(a) os yw'r ymgeisydd wedi gwneud hyfforddiant mewn gwaith cymdeithasol yn rhywle arall ac eithrio Cymru, a

(b) os, naill ai—

(i) cydnabyddir yr hyfforddiant hwnnw gan GCC fel hyfforddiant o safon sy'n ddigonol ar gyfer cofrestriad o'r fath, neu

(ii) na chydnabyddir yr hyfforddiant yn y fath fodd, ond bod yr ymgeisydd wedi gwneud unrhyw hyfforddiant ychwanegol sy'n ofynnol gan GCC (pa un a yw hynny yng Nghymru neu yn rhywle arall).